

# Taflen Wybodaeth Gwirfoddoli Grŵp

## Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru

Rydyn ni wedi bod yn warchodwyr casgliadau treftadaeth, celf a hanes natur Cymru ers 1907, ac rydyn ni'n credu gall amgueddfeydd newid bywydau. Rydyn ni'n dibynnu ar gefnogaeth unigolion, busnesau a sefydliadau elusennol i'n helpu i gadw treftadaeth Cymru yn fyw. Gyda chefnogaeth grwpiau fel eich un chi gallwn gwblhau tasgau a gwarchod hanes Cymru, er mwyn pobl Cymru!

Yma cewch yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi a'ch grŵp.

### Gweithgareddau Gwirfoddoli

Yn y gorffennol, mae grwpiau wedi ein helpu gyda gwyngalchu adeiladau hanesyddol, paentio ffensys, gwaith fferm, garddio, a helpu i drefnu deunyddiau archifol hyd yn oed.

Rhowch wybod os ydych chi'n chwilio am fath penodol o weithgaredd. Byddwn ni'n gwneud ein gorau i ddarparu ar eich cyfer, ond allwn ni ddim gwarantu y bydd gweithgaredd yn bosibl.

Uchafswm o 8 person y ddydd yn Big Pit.

### Hyfforddiant a Goruchwyliaeth

Bydd eich grŵp yn cael cyflwyniad defnyddiol a phriodol, hyfforddiant, cefnogaeth a goruchwyliaeth gan staff Amgueddfa Cymru. Byddwn hefyd yn darparu unrhyw gyfarpar diogelu personol angenrheidiol yn rhad ac am ddim.

Bydd angen i'ch sefydliad enwebu Arweinydd Tîm fydd yn cynnig cymorth a lefel o oruchwyliaeth i'ch grŵp.

Bydd angen i sefydliadau/elusennau ddod â'r nifer priodol o oruchwylwyr a/neu ofalwyr i oruchwylio grwpiau ag anghenion ychwanegol.

### Grŵp Oedran y Cyfranogwyr

Rhaid bod dros 18 oed i gymryd rhan.

### Amserlen y Diwrnod

Amserlen arferol:

| | |
|---|---|
| 10.00am | Cyrraedd y Dderbynfa. |
| 10.30am | Croeso a sesiwn wybodaeth.<br>Gwirfoddoli. |
| 1.30pm | Diwedd/cinio |

### Lluniaeth a Chinio

Mae croeso i chi ddefnyddio'r caffi neu'r cantîn trwy gydol y diwrnod. Mae gostyngiad o 20% yn ein caffis i wirfoddolwyr.

Mae croeso i'ch grŵp hefyd ddod â phecyn bwyd, a gallwch ei fwyta yn yr awyr agored ar draws yr Amgueddfa.

## Opsiwn Ychwanegol

### Taith Danddearol

Teithiwch 300 troedfedd i grombil y ddaear gyda glöwr go iawn i weld sut beth oedd bywyd i'r miloedd o ddynion oedd yn gweithio yn y pyllau glo.

Byddwch yn barod i gael eich gollwng 90 metr (300 troedfedd) i lawr siafft Big Pit am ein taith danddaearol enwog. Mae'n daith drawiadol o gwmpas rhai o'r lefelau gwreiddiol.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan

https://amgueddfa.cymru/bigpit/taith/

Mae gwybodaeth cyffredinol a gwybodaeth i ymwelwyr sy'n anabl ar gael ar ein gwefan https://amgueddfa.cymru/bigpit/ymweld/

Neu e-bostiwch bigpit@amgueddfacymru.ac.uk a rhoi gwybod eich bod chi wedi archebu diwrnod gwirfoddoli grŵp gyda ni.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwirfoddoli fel grŵp, llenwch y Ffurflen Ymholiad a'i hanfon at Sion: gwirfoddoli@amgueddfacymru.ac.uk neu ffonio (029) 2057 3002.